

PECYN ATHRAWON CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

	TUDALEN
Disgrifiadau Dysgu	3
Fframwaith Llythrennedd	4
Crynodeb o'r Gwersi	6
Gwers 1 – Atebion Prawf Darllen Cenedlaethol	8
Gwers 4 – Sgript Cymraeg a Saesneg Sam Tân	10
Gwers 5 – Atebion Helfa Wybodaeth	15

MAES DYSGU A PHROFIAD: **ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

DISGRIFIADAU DYSGU:

MAE IEITHOEDD YN EIN CYSYLLTU Â'N GILYDD

Bydd y dysgwyr yn:

- cael cyfle i gyfathrebu mewn ystod cynyddol o ieithoedd
- gallu adnabod a thrafod cysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg
- gallu adnabod a deall gwahanol acenion a thafodieithoedd
- gallu derbyn gwybodaeth mewn un iaith a'i haddasu at wahanol ddibenion mewn iaith arall.

MAE DEALL IEITHOEDD YN ALLWEDDOL I DDEALL Y BYD O'N HAMGYLCH

Bydd y dysgwyr yn:

- gwrando ar, deall, ac adalw yn ddiweddarach mewn mwy o fanylder, ystyr cyffredinol yr hyn y byddan nhw wedi'i glywed
- gwrando ar a deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan grynhoi'r prif bwyntiau
- gwrando ar, adnabod a defnyddio *ciwiau* i ddeall ystyr cyffredinol a syniadau sydd ymhlyg
- darllen testunau gan ddewis strategaethau sy'n rhoi'r mwyaf o gymorth iddynt eu deall
- gwrando a darllen er mwyn datblygu eu geirfa, eu hynganiad a'u strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain wrth gyfathrebu.

MAE MYNEGI EIN HUNAIN DRWY IEITHOEDD YN ALLWEDDOL I GYFATHREBU

Bydd y dysgwyr yn:

- gallu adnabod yr iaith briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion gan amrywio eu mynegiant, geirfa a naws i ennyn diddordeb y gynulleidfa
- gallu addasu a thrin iaith a gwneud dewisiadau priodol ynghylch geirfa, *iaith idiomatig* a *chystrawen* er mwyn mynegi eu hunain yn rhugl ac eglur
- gallu ysgrifennu'n ddarllenadwy a rhugl
- gallu rhyngweithio gydag eraill, siarad ac ysgrifennu am eu meddyliau, eu teimladau a'u barn, gan ddangos empathi a pharch
- gallu defnyddio *iaith idiomatig* gyfarwydd a *chywair* priodol wrth gyfathrebu.

FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD

Trawsieithu

Bydd y dysgwyr yn:

- gallu derbyn gwybodaeth mewn un iaith a'i haddasu at wahanol ddibenion mewn iaith arall.

Gwranddo

Bydd y dysgwyr yn:

- gallu derbyn gwybodaeth mewn un iaith a'i haddasu at wahanol ddibenion mewn iaith arall
- gallu gwranddo er mwyn adeiladu eu geirfa, datblygu eu hynganiad, goslef/acenion a strwythurau brawddegau gan eu defnyddio wrth gyfathrebu
- gallu gwranddo, adnabod a defnyddio geiriau allweddol i ddeall ystyr gyffredinol a syniadau sydd ymhlyg
- gallu gwranddo ar eraill ac ymateb iddyn nhw drwy ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a'r camau nesaf.

Darllen

Bydd y dysgwyr yn:

- gallu defnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr geiriau a brawddegau
- gallu defnyddio ystod o strategaethau er mwyn dod o hyd i wybodaeth, e.e. *cip ddarllen (sgimio) am yr hanfodion, llithr ddarllen (sganio) am fanylion*
- gallu deall sut y gall atalnodi amrywio, gan effeithio ar strwythur brawddegau ac ystyr
- gallu darllen er mwyn adeiladu eu geirfa a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain wrth iddynt gyfathrebu
- gallu darllen yn fanwl, gan adnabod a nodi nodweddion testunau.

Siarad

Bydd y dysgwyr yn:

- gallu gwneud dewisiadau priodol am eirfa, iaith idiomatig a chystawen er mwyn mynegi eu hunain yn rhugl ac yn eglur
- gallu mynegi materion a syniadau'n glir gan ddefnyddio geirfa sy'n benodol i faes dysgu a phrofiad/disgyblaeth ac enghreifftiau
- gallu rhannu, siarad ac ysgrifennu am eu meddyliau, eu teimladau a'u barn gan ddefnyddio ystod o dechnegau i ddangos effaith.

Ysgrifennu

Bydd y dysgwyr yn:

- gallu gwneud dewisiadau priodol am eirfa, iaith idiomatig a chystawen er mwyn mynegi eu hunain yn rhugl ac yn eglur ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol ac at ddibenion gwahanol
- gallu defnyddio iaith briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys ffurfiau safonol
- gallu defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o eiriau
- gallu defnyddio'r hyn maent yn ei wybod am seiniau a phatrymau llythrennau'n gywir wrth sillafu
- gallu ysgrifennu'n ddarllenadwy ac yn rhugl
- gallu treiglo'n gywir yn ôl y gofyn
- gallu defnyddio strwythurau brawddeg syml, cyfansawdd a chymhleth er pwyslais ac effaith
- gallu defnyddio amrywiaeth gynyddol o gysyllteiriau i drefnu eu syniadau mewn brawddegau, paragraffau a thestunau cyfan
- gallu defnyddio ystod o atalnodau'n gywir (gan gynnwys collnod) i egluro ac ehangu ar ystyr
- gallu addasu arddull a strwythur eu hysgrifennu i fod yn addas i'r gynulleidfa, y diben a'r cyd-destun
- gallu ysgrifennu am eu meddyliau, eu teimladau a'u barn, gan ddangos empathi a pharch
- gallu ysgrifennu cyflwyniad effeithiol sy'n nodi'r cyd-destun a'r diben, gan gynnwys cydbwysedd addas rhwng ffeithiau a safbwyntiau, a chasgliad penodol
- gallu defnyddio paragraffau a gwneud cysylltiadau rhyngddyn nhw
- gallu myfyrio ar safon eu mynegiant, ei olygu a'i ailddrafftio i wella'r ansawdd, a defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau mwy o eglurder.

CRYNODEB O'R GWERSI:

(Ceir nodiadau i athrawon/cynghorion fel nodiadau ar y sleidiau Powerpoint.)

GWERS 1 – PAM FOD CYFIEITHU’N BWYSIG?

- Tasg Sbardun
- Trafod beth ydy cyfieithu
- Dewis a dethol sgiliau cyfieithwyr
- Darn Darllen – Pam fod cyfieithu’n bwysig?
- Cwestiynau ar sail y Profion Darllen Cenedlaethol
- Paratoi i ysgrifennu e-bost perswadiol yn seiliedig ar ddwyieithrwydd gan ddadansoddi model
- Clo

(Gellir rhoi gwers neu ddwy ychwanegol i lenwi'r daflen baratoi, ysgrifennu'r e-bost ac arfarnu cyfoedion)

GWERS 2 – BETH YDY CYFIEITHU?

- Tasg Sbardun
- Cyfieithu geiriau gan sylwi fod un gair yn gallu golygu sawl peth
- Cyfieithu idiomaau
- Cyfieithu teitlau albyms
- Clo

GWERS 3 – MEDDWL YN GREADIGOL WRTH CYFIEITHU AC IS-DEITLO

- Tasg Sbardun
- Cyfieithu sloganau enwog
- Trafod beth ydy is-deitlo
- Gwyllo clip o raglen *Y Llais* gydag isdeitlau
- Creu isdeitlau i hysbyseb McDonald's
- Prawfddarllen isdeitlau Cymraeg *Waterloo Road*
- Clo

GWERS 4 – CYFIEITHU RHAGLEN BLANT

- Tasg Sbardun
- Rhoi trefn ar ymadroddion llafar a ffurfiol
- Cysylltu ymadroddion y De a'r Gogledd
- Cyfieithu [Fireman Sam™](#) | [Mother's Helper](#) | [Series 6](#) i'r Gymraeg
- Clo

GWERS 5 – HELFA WYBODAETH CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

- Dysgu am Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru drwy gasglu gwybodaeth oddi ar eu gwefan

GWERS 1

ATEBION

1. Pwy yw Comisiynydd y Gymraeg? Ticiwch 1

- ☒ Efa Gruffudd
- ☐ Eifion Gruffudd
- ☐ Gruff Rhys
- ☐ Efa Rhys

2. Beth ydy gwaith Comisiynydd y Gymraeg? Ticiwch 2

- ☐ Rheoli Cymru
- ☐ Gwneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ☒ Gosod Safonau'r Gymraeg
- ☒ Gwirio bod sefydliadau yn dilyn y Safonau


3. Ticiwch i ddangos pa ddatganiadau sy'n gywir a pha rai sy'n anghywir.

	CYWIR	ANGHYWIR
Heb gyfieithu, byddai pobl sy'n siarad Cymraeg yn cael mwy o gyfleoedd a gwasanaethau		☒
Safonau'r Gymraeg yw rheolau sy'n mynnu bod y Gymraeg yn cael ei pharchu.	☒	
Mae'r Safonau yn gwneud yn siŵr fod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg gyda chwmnïau preifat		☒
Mae'n rhaid i ffurflenni mewn gwasanaethau cyhoeddus fod yn y Gymraeg	☒	

4. Tanlinellwch un gair yn y blwch isod sy'n disgrifio bod cyfieithu yn bwysig:

Mae cyfieithu yn hanfodol i wneud yn siŵr bod sefydliadau'n cadw at safonau'r Gymraeg.

5. Tynnwch 4 llinell i gysylltu'r Safonau isod:



GWERS 4

Golygfa 1	Saesneg	Cymraeg
Mike (Tafodiaith y Gogledd)	I know it's important that you go to this nursing course and learn how to do all those new fangle medical things but how am I going to manage all the extra housework?	Dwi'n gwbod ei fod yn bwysig i chdi fynd ar y cwrs nyrsio 'ma, i ddysgu'r pethau meddygol ffasiwn newydd 'ma i gyd. Ond sut dwi'n mynd i ddod i ben efo'r holl waith tŷ ychwanegol?
Helen (Tafodiaith y Gogledd)	You don't have that much to do, Mike. I'm only away for two days.	Does na'm llawer i neud, Mike. Dim ond diwrnod neu ddau fydda i.
Mike	I know but I have work to do too. What if somebody needs their roof repaired? Or their leaky tap mended? I can't do everything.	Dwi'n gwbod. Ond dwi'n gweithio hefyd, ti'n gwbod. Be os fydd rhaid i mi drwsio to rhywun neu bibelli sy'n gollwng? Alla i ddim gneud bob dim.
Dilys (Tafodiaith y De)	Honestly Mike, I always have to work and do all the housework by myself.	Gwranda, Mike. Fi 'di rhedeg siop a neud y gwaith tŷ ar ben y'n hunan.
Mike	Yes Dilys... but...	Wyt, Dilys... ond...
Helen	What about Norman? Doesn't he help with the chores?	Be am Norman? Dio ddim yn helpu efo'r gwaith tŷ?
Dilys	Are you saying that Mandy actually helps you with the housework, Helen?	Wyt ti'n gweud bod Mandy o ddifri yn helpu gyda'r gwaith tŷ, Helen?
Helen	That's exactly what I'm saying, Dilys. And Norman could help you too.	Dyna'n union be dwi'n ddeud, Dilys. A fedrith Norman helpu hefyd.

Golygfa 2	Saesneg	Cymraeg
Elvis (Tafodiaith y De)	A wet mop floor, I've got a wet mop floor, and baby don't you step on my wet mop floor!	Golchi'r llawr, rhaid i fi olchi'r llawr, peidiwch dod i mewn pan fydda i'n golchi'r llawr!
	Oh Penny! Stop! The floor's wet!	O Penny! Stopia! Ma'r llawr yn wlyb!
Penny (Tafodiaith y Gogledd)	Sorry! You've rather backed yourself into a corner there, haven't you Elvis?	Sori! Ti 'di cael dy gornelu yn fan 'na, dwyt ti Elvis?
Elvis	I'll be okay, Penny.	Fydda i'n iawn, Penny.
Penny	Are you alright down there?	Wyt ti'n iawn yn fan 'na?
Elvis	I think so!	Credu bo fi!
Sam (Tafodiaith y De)	Nothing broken anyway...	Dim byd 'di torri ta p'un i.
Elvis	Except my poor mop!	Heblaw am goes y mop!

Golygfa 3	Saesneg	Cymraeg
Dilys	Norman? Norman? Norman Price, I have a job for you.	Norman? Norman? Norman Price, ma 'da fi jobyn i ti.
Bronwen (Tafodiaith y De)	Www hello, Norman. Where are you off to in such a hurry this morning?	Www helo, Norman. Ble wyt ti'n mynd ar gymaint o hast bore 'ma?
Dilys	A-ha! There you are! Oh thanks, Bronwen. He nearly got away.	A-ha! Fan 'na wyt ti! O diolch, Bronwen. Bron iddo fe ddianc.

Golygfa 4	Saesneg	Cymraeg
Helen	Okay, Mike. Here's a list of the jobs you need to remember to do. Are you sure you're going to be alright?	O'r gora, Mike. Dyma restr o'r petha sy'n rhaid i ti gofio neud. Wyt ti'n siŵr fyddi di'n olreit?
Mandy	Don't worry, Mum. I'll look after Dad.	Paid poeni, ofala i am Dad.
Mike	Ha ha! Very funny... What? Helen? This can't be right!	Ha ha! Doniol iawn... Be? Helen? Fedar hyn ddim bod yn iawn.
Mandy	Bye, Mum... have fun on your course.	Hwyl Mam... mwynha dy gwrs.

Golygfa 5	Saesneg	Cymraeg
Dilys	There are a lot of jobs in this house, Norman Price. You can't expect me to do everything. You can pick up your dirty clothes and put them in the laundry basket for a start.	Ma 'na lot o waith yn y tŷ hyn, Norman Price. All di'm disgwl i fi neud popeth. All di gasglu dy ddillad brwnt a'u rhoi yn y fasedg ddillad i ddechre.
Norman	But... I'm not even sure what the laundry basket looks like.	Ond... 'sw'n i'm yn nabod basged ddillad 'sw'n i'n gweld un.
Dilys	It's in the bathroom, under the sink.	Ma hi'n y stafell folchi o dan y sinc.
Norman	I've never noticed it.	Sa i rioed 'di sylwi.
Dilys	This, Norman Price, is the laundry basket.	Hon, Norman Price, yw'r fasedg ddillad.
Norman	Oh but... how does it open?	O... shwt y'ch chi'n ei hagor hi, Mam?
Dilys	Like this!	Fel hyn!
Norman	Oh... but how do you put clothes into it?	Oh... ond shwt i chi'n rhoi'r dillad mewn ynddi?
Dilys	I think you can work that out and I expect you to take the basket down to the cellar and put a wash on today.	Dwyt ti ddim mor dwp â 'na. A fi'n disgwyl i ti fynd â'r fasedg lawr i'r seler a rhoi'r golch mewn nawr.

Norman	But... Mam!	Ond... Mam!
--------	-------------	-------------

Golygfa 6	Saesneg	Cymraeg
Mandy	I've tidied my room, made my bed and washed the dishes, which means my jobs are done.	Dwi 'di tacluso'n stafall, gneud fy ngwely a golchi'r llestri sy'n meddwl 'mod i 'di gorffan.
Mike	Fancy doing a little bit of ironing then, sweetheart?	Fasach chdi'n licio gneud bach o smwddio i fi ta, cariad?
Mandy	No, thanks. I'm meeting up with Norman to go skateboarding.	Dim diolch! Dwi'n cwrdd â Norman. Dan ni'n mynd i sgrialu.

Golygfa 7	Saesneg	Cymraeg
Dilys	Are you alright down there, Norman? There are a lot of dirty clothes. I think that you will have to put on two washes.	Wyt ti'n iawn lawr fan 'na, Norman? Ma 'na lot o ddillad angen eu golchi. Fi'n credu y bydd angen i ti neud o leiaf dau olchad.
Norman	No, I won't! There we go!	Na, fi ddim!
Norman	All done! See you later, Mam! I'm off to meet Mandy.	'Na ni! Wedi neud e! Wela i chi, Mam. Fi'n mynd i gwrdd â Mandy.
Dilys	But I want you be back in time to put the second wash on. Norman!	Ond fi moyn ti fod nôl mewn pryd i roi'r ail olch mewn. Norman!
Norman	Morning, Elvis!	Bore da, Elvis!
Mandy	Lovely day!	Diwrnod braf!

Golygfa 8	Saesneg	Cymraeg
Elvis	Morning, Dilys! I'm looking for a mop.	Bore da, Dilys! Fi 'di dod i brynu mop.
Dilys	Shh... listen, Elvis! Can you hear that?	Shh... gwranda, Elvis! Ti'n clywed hwna?
Elvis	Ww yes. It sounds kind of like a waterfall or maybe...	Ww ydw. Mae'n swnio'n debyg i bistyll dŵr neu falle...
Dilys	The washing machine.	Y peiriant golchi.

Golygfa 9	Saesneg	Cymraeg
Mike	I wish I was a nurse then I could go away on a training course and I wouldn't have to do any ironing. Yes, Doctor, you're right. This shirt has a serious case of button-ites. It's going to be a very fiddley operation.	'Swn i'n licio bod yn nyrs, wedyn 'swn i'n gallu mynd i ffwrdd ar gwrs hyfforddi a fasa ddim angan i mi smwddio. Ia, Doctor, dach chi'n iawn. Mae'r crys hyn yn dioddef o ddos o fotwm-ites. Mae'r llawdriniaeth yn mynd i fod yn drafferthus.

	Nurse Flood, emergency room.	Nyrs Flood, ystafell argyfwng.
Dilys	Helen? What's happened to your voice? Is Mike there?	Helen? Beth sy'n bod ar dy lais di? Ydy Mike 'na?
Mike	Ha ha! No, it's me!	Ha ha! Mike sydd yma!
Dilys	Mike! Come quickly. Norman has broken the washing machine.	Mike! Dere'n glou. Mae Norman wedi torri'r peiriant golchi.
Mike	Say no more, Dilys! I'm on my way. I knew I'd have work to do.	Paid â phoeni, Dilys. Dwi ar y'n ffordd. Ro'n i'n gwbod 'sa gwaith yn galw.

Golygfa 10	Saesneg	Cymraeg
Penny	Ymm, Elvis! What are you doing?	Ymm, Elvis! Be ti'n neud?
Elvis	Just trying out my new mop, Penny. And I'll have you know that I've decided to walk forwards so there won't be any more accidents.	Fi jyst yn rhoi cynnig ar y mop newydd a fi moyn i ti wbod 'mod i nawr yn cerdded ymlaen er mwyn osgoi cael damwain arall.
Penny	No... but there will be footprints!	O... ond mae olion dy draed di yna.
Elvis	Yy? Why does mopping have to be so complicated?	Yy? Pam ma raid i fopio'r llawr fod mor gymhleth?

Golygfa 11	Saesneg	Cymraeg
Mike	I will have to order a new belt for your washing machine, Dilys. You must have overloaded it.	Fydd raid i chdi gael belt newydd i'r peiriant 'ma, Dilys. Ti 'di orlwytho fo.
Dilys	It wasn't me. It was Norman! Now you know why I never ask him to do anything!	Dim fi nath. Norman nath e! Nawr ti'n gwbo pam fi ddim yn gofyn iddo fe helpu.
Mike	See you, Dilys!	Yndw! Hwyl!
Mike	Hello!	Helô!
Norman	Hi, Mike!	Shwmae, Meic!
Dilys	Norman?	Norman Price?
Norman	Oh... what now? I did the washing!	Oh... beth nawr? Fi 'di gneud y golch!
Dilys	No! You broke the washing machine! So now, you need to ask Mike very nicely if you can wash our dirty clothes in his machine.	Naddo! Dorrest ti'r peiriant golchi! A nawr, rhaid ti ofyn i Mike ydy e'n fodlon i ni olchi'r dillad 'ma yn ei beiriant e.
Norman/ Mike	But.... Oo!	Beth? Ond...
Mandy	Have fun, Norman! I wonder if Sarah and James want to go skateboarding.	Mwynha, Norman! Tybed ydy Sara a Jâms isio dod i sgialu?

Golygfa 12	Saesneg	Cymraeg
------------	---------	---------

Mike	You know, Norman. I don't much like housework either. But if a job's worth doing, it's worth doing properly. Oh no!	Wsti be, Norman? Ma'n gas gen i waith tŷ hefyd. Ond os oes raid i neud o, ma'n werth ei neud o'n iawn. O na!
Norman	Call Fireman Sam!	Rhaid ni alw Sam Tân!

Golygfa 13	Saesneg	Cymraeg
Prif Swyddog Steele (Tafodiaith y De)	Fire at the Flood's house.	Tân yn nhŷ Mike Flood.
Elvis	Oh no! Why do emergencies always happen when you don't want them to?	O na! Pam ma pobl bob amser yn galw pan chi'n mwynhau'ch hunan.
Prif Swyddog Steele	Fire at the Flood's house, Sam. Penny, take Venus as well.	Tân yn nhŷ'r Floods. Penny, cerwch â Fenws hefyd.
Sam	Come away from the house, Mike. We'll take it from here. Elvis... switch the electricity off.	Cadwch draw wrth y tŷ. Gadewch bopeth i ni. Elvis, cer i ddiffodd y trydan.
Elvis	Okay, Sam.	lawn, Sam.

Golygfa 14	Saesneg	Cymraeg
Mandy	Oh no! What's Norman done now?	O na! Be mae Norman 'di neud rŵan?
Norman	It wasn't me this time.	Ddim fi sy ar fai tro hyn.
Mike	It's my fault... I went out and left the iron on.	Fi odd ar fai, Mandy. Es i allan a gadael yr haearn smwddio.
Sam	Well, we could all afford to be more careful whichever job we might be doing.	Wel gallen ni i gyd fod yn fwy gofalus, waeth beth yw'r job dan ni'n neud.
Elvis	Yes. Even a mop can be very dangerous.	Gallwn. Ac mae mop hyd yn oed yn gallu bod yn beryglus.
Sam	Elvis is right!	Ma Elvis yn iawn!

GWERS 5

Atebion

1. Un
2. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol.
3. Cyflawn, Sylfaenol, CAP/ Cyfieithu ar y Pryd
4. Intec, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4FG
5. 1976
6. 13
7. Sefydlu trefn asesu ar gyfer ymaelodi â'r Gymdeithas gan Wil Petherbridge.
8. Llywodraeth Cymru
9. Gwobr Goffa Wil Petherbridge a Gwobr Berwyn
10. Un o'r cyntaf i arbrofi gyda Chyfieithu ar y Pryd (yn y llysoedd)
11. Aberystwyth, Caerdydd a Glynllifon
12. Aber - Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol
PCYDDS - Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd